



Canllawiau ar gyfer Arholiadau Allanol

CYN YR ARHOLIAD

- Dylech wybod dyddiad ac amser pob un o'ch arholiadau, os yn ansicr, ffoniwch yr ysgol.
- Bydd rhan fwyaf o'r arholiadau boreol yn dechrau am 9 o'r gloch a'r prynhawn yn dechrau am 1 o'r gloch.
- Ar ddiwrnod yr arholiad, os ydych yn teimlo'n sâl, ceisiwch ddod i'r arholiad (fe wnewn drefniadau arbennig ar eich cyfer chi). Os ydych yn rhy sal i ddod, yna ffoniwch yr ysgol mewn da bryd ac fe fydd angen llythyr meddyg arnoch.
- Os na fyddwch yn medru mynychu'r arholiad fe fyddwch yn derbyn bil am yr arholiad a chofiwch bod y costau erbyn hyn wedi dwbli. Llythyr meddyg yn unig sy'n esgusodi peidio dod i arholiad.
- Rhaid i chi fod mewn gwisg ysgol lawn.
- Byddwch yn cael eich cofrestru yn eich ystafell arholiad felly nid oes angen arwyddo i mewn.

YN YSTOD YR ARHOLIAD

- Dim camymddwyn o unrhyw fath, gallwch gael eich diarddel o'ch pynciau i gyd.
- Dim siarad. Codi llaw yn unig i dderbyn sylw.
- Dilyn cyfarwyddiadau'r Goruchwylwyr bob amser.
- Offer cywir, chewch chi ddim benthyg.
- Unwaith y byddwch yn yr ystafell arholiad, byddwch yn aros am yr arholiad i gyd os nad oes trefniant ymlaen llaw gyda'r Swyddog Arholiadau gyda chi.
- Sicrhewch eich bod wedi rhoi eich ffonau symundol, lpod ac ati yn y bocs yn yr ystafell arholiad cyn cychwyn yr arholiad. Os bydd rhain yn cael eu darganfod yn eich meddiant yn ystod yr arholiad, gallai olygu y byddwch yn cael eich diarddel o'r arholiad a'r cymhwyster yn gyffredinol.
- Cyfrifiannell – cadwch at y rheolau. Dim clawr, dim sŵn, dim byd wedi storio yn y cof.
- Poteli Dŵr – poteli clir heb ddim ysgrifen tu allan.
- Câs pensiliau clir, plastig yn unig.

COFIWCH RYDYM NI YMA I HELPU, FELLY DEWCH I SIARAD Â NI OS OES ANGEN